

CYMRU YNG NGHADEREDIN

WALES IN EDINBURGH

Mae'r cyfle ariannu ychwanegol yma yn darparu cymorth i gwmnïau celfyddydau perfformio a gweithwyr creadigol yng Nghymru i gynhyrchu a chyflwyno eu gwaith yng Ngŵyl Ymylol Caeredin 2019

Gŵyl Ymylol Caeredin yw'r ŵyl gelfyddydol fwyaf yn y byd. Mae Cymru yng Nghaeredin yn gyfle arddangos sy'n cael ei drefnu i hyrwyddo theatr, dawns a syrclas o Gymru. Gweledigaeth y rhaglen yw defnyddio'r ŵyl yn llwyfan i'n sefydliadau a'n gweithwyr celfyddydol i wireddu eu huchelgais rhyngwladol.

Bydd cynulleidfaoedd, rhaglenwyr, hyrwyddwyr a chynhyrchwyr o ledled Prydain a'r byd yn dod i'r ŵyl. Rydym yn credu bod gan ein cwmnïau perfformio a'n gweithwyr creadigol ansawdd unigryw a byddant yn gallu gweithio dros y byd.

Buom ni'n gweithio gyda Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Cyngor Prydeinig i gynnig cyfle i'n cwmnïau a gweithwyr creadigol sy'n barod i arddangos eu doniau i ddatblygu marchnadoedd a gwella eu teithiau y tu allan i Gymru.

Bydd ein proses ddethol yn cael ei hysbrydoli gan ein [Cynllun Corfforaethol](#) newydd, Er Budd Pawb. Mae llais yr unigolyn a mynegiant personol yn bwysig inni. Hefyd mae amrywiaeth, cydraddoldeb a thegwch wrth wraidd ein gwaith yn ogystal â chefnogi celfyddyd ddewr ac arloesol.

Panel allanol sy'n trefnu ein presenoldeb yno. Mae'r aelodau wedi'u dewis am eu harbenigedd a'u hymrwymiad i'n gwerthoedd yn y Cynllun. Dyma'r aelodau:

Gary Raymond	Wales Arts Review
Malú Ansaldo	Roundhouse
Lisa Heledd Jones	Storyworks
Tunde Adefioye	Koninklijke Vlaamse Schouwburg, Brwsel
Taylor Edmonds	awdur celfyddydol sy'n dod i'r amlwg

Bydd y panel yn cael ei gefnogi gan Nicola Morgan (Celfyddydau Rhyngwladol Cymru), Maggie Dunning (Cyngor Celfyddydau Cymru) a Rebecca Gould (y Cyngor Prydeinig). Bydd y panel yn cael ei gadeirio gan Siân Tomos, Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio, Cyngor Celfyddydau Cymru.

Rydym ni am glywed gan gwmnïau a gweithwyr sydd â hanes o greu gwaith cyffrous sy'n barod i'w weld yn yr ŵyl a'i deithio y tu hwnt i Gymru. Ni fyddwn ni'n ariannu creu gwaith

newydd sbon a rhaid i'n hymgeiswyr feithrin eu perthynas eu hunain â lleoliadau yng Nghaeredin.

Bydd ystod eang o ymgeiswyr gyda chynigion gwahanol iawn. Felly rydym ni'n gofyn ichi ystyried yr arian yn gyfraniad at y gost o gyflwyno yn yr ŵyl, gan gynnwys y lleoliad, llogi technegol, hygyrchedd, marchnata, llety a ffioedd perfformio.

Y cyfanswm sydd ar gael i Gymru yng Nghaeredin yn 2019 yw **£120,000**. Rydym ni'n disgwyl ariannu rhyw 7-10 ymgeisydd â chynigion cryf sy'n barod i arddangos.

Eich cynnig

Rydym ni am gael cynigion gan ymgeiswyr sydd â hanes o greu gwaith cyffrous sy'n barod i'w weld gyda rhesymeg gryf.

Sut y bydd eich cynnyrch gorffenedig yn wahanol, cyffrous ac o safon? Sut y bydd yn codi eich proffil rhyngwladol chi a phroffil Cymru? Sut y bydd yn denu cynulleidfaoedd? Hoffem ni hefyd weld recordiad o'r darn.

Rhaid i'r gwaith gyrraedd cynulleidfa eang iawn. Felly rhaid cael cynlluniau marchnata a datblygu cynulleidfa sy'n realistig ac argyhoeddiadol gyda'ch holl bartneriaid yn cyd-dynnu. A hoffem ni ddeall pam rydych wedi dewis eich lleoliad penodol.

Dim ond sefydliadau a gweithwyr creadigol yng Nghymru (neu sydd wedi gweithio yma yn helaeth) sy'n gallu cynnig am y grantiau yma.

Proses dau gam

I fynegi diddordeb cyn dechrau ar y broses ymgeisio ffurfiol, anfonwch at maggie.dunning@celf.cymru gyda *Caeredin - mynegi diddordeb* yn y teitl. Rhaid iddo fod yn ddim mwy na 500 gair gyda chyllideb ddrafft.

Dyddiad cau mynegi diddordeb yw 5pm ddydd Mercher 12 Rhagfyr 2018.

Bydd panel mewnol ac allanol yn ystyried eich cynnig ac yn cysylltu â chi erbyn diwedd y dydd, 16 Rhagfyr 2018. Byddwch yn cael gwybod a ydy'n iawn ichi fynd ymlaen i'r cam ymgeisio ac am faint o arian.

Dyddiad cau ymgeisio yw 5pm ddydd Iau 17 Ionawr 2019.

Bydd ein panel asesu arbenigol yn dod o Gymru a thramor gyda chadeirydd o'n Huwch-dîm Arwain.

Byddwn ni'n ymlacio'r rheol 'un cais y flwyddyn'. Wedyn byddwch chi'n gallu ymgeisio i Gymru yng Nghaeredin hyd yn oed gyda grant arall yn yr un flwyddyn. Ond, wrth

gloriannu'r ceisiadau hyn, ystyriwn gynhwysedd y sefydliad a'r gweithwyr i reoli sawl prosiect ar yr un pryd.

Pwy all wneud cais?

Bydd cwmnïau cynhyrchu proffesiynol a phobl greadigol broffesiynol yn gallu ymgeisio. Bydd yn rhaid ichi brofi bod eich cwmni neu'ch ymarfer yng Nghymru neu eich bod chi'n gweithio'n helaeth yng Nghymru.

Bydd yn rhaid ichi feddu ar y canlynol:

- hanes o lwyddo o ran darparu gweithgarwch celfyddydol i gynulleidfaoedd neu ymgyfranogwyr
- Polisi Cyfle Cyfartal a adolygwyd gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd diwethaf ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol. Os ydych chi'n rhywun creadigol proffesiynol, rhaid dangos bod gennych ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Gyfle Cyfartal a bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o'ch ymarfer.
- Cyfrif banc yn enw eich sefydliad sydd angen o leiaf ddau berson i awdurdodi trafodion (fel arfer, cyfeirir at y rhain yn 'llofnodwyr ar y cyfrif'). Pan ddywedwn 'drafodion', golygwn dynnu arian o gyfrif y sefydliad, trosglwyddo arian neu dalu arian i mewn. Mae hyn yn cynnwys llofnodi sicciau a defnyddio cyfrif banc drwy'r we. Os ydych chi'n rhywun creadigol proffesiynol, rhaid bod gennych gyfrif banc yn eich enw eich hun. Ni allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithio ar system cael llyfr pas yn unig.
- Os ydych chi'n rhywun creadigol proffesiynol, rhaid ichi fod dros 18 oed a byw yng Nghymru neu wedi gweithio'n helaeth yma.

Os yw'ch prosiect yn ymwneud â gweithio gyda phlant, pobl ifainc neu oedolion hygwlwyf bydd yn rhaid ichi hefyd feddu ar Bolisi Diogelu/Amddiffyn Plant a adolygwyd hefyd gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd diwethaf ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol. Bydd yn rhaid i'r polisi hwn ddangos bod materion diogelu'n cael eu hadlewyrchu yn eich cynllunio a'ch gwaith beunyddiol.

Ni chewch ymgeisio am arian os ydych wedi diffygdalu unrhyw gytundeb ariannol â Chyngor Celfyddydau Cymru.

Gofynnir ichi gadarnhau bod eich sefydliad yn diwallu'r gofynion cymhwysedd ar ddechrau'r broses ymgeisio ar-lein.

I'n sefydliadau, nodyn am lywodraethu

Cymerwn y cyfrifoldeb am ddsbarthu arian y cyhoedd o ddifrif a dyma pam mae'r ffordd y rhedwch eich sefydliad yn bwysig inni. Mae arnom angen bod yn siŵr bod eich sefydliad wedi'i sefydlu'n gywir ac y gall reoli grant yn briodol. Ni roddwn grant os gwelwn berygl na reolir arian y cyhoedd yn iawn.

Un o'r ffyrdd y gwnawn hyn yw sicrhau y diwellwch ein gofynion cymhwysedd. Bydd yn rhaid ichi gyflwyno copi o'ch dogfen lywodraethol gyda'ch cais. Mae hyn yn gymorth inni wirio eich bod yn gymwys i ymgeisio am Grantiau Celfyddydol i Sefydliadau a hefyd i asesu eich cais wedyn.

Rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad sydd angen o leiaf ddau berson i awdurdodi trafodion.

Os llwydda eich cais, gwiriwn y wybodaeth hon drwy ofyn ichi ddarparu manylion pellach am eich cyfrif. Ni allwn ryddhau unrhyw daliadau nes inni gael a gwirio'r wybodaeth hon.

Pryd i ymgeisio

Dyddiad cau am Fynegi Diddordeb mewn Cymru yng Nghaeredin yw **5pm ddydd Mercher, 12 Rhagfyr 2018**.

Dyddiad cau ceisiadau llawn (a rhaid eu bod wedi'u cytuno wrth y cam Mynegi Diddordeb) yw **5pm ddydd Iau, 17 Ionawr 2019**.

Bydd yn rhaid ichi ganiatáu chwe wythnos waith ar ôl y dyddiad cau cyn ichi ddechrau ar eich prosiect.

Ymgeisio

Os byddwch chi'n cael eich dewis gan ein panel mewnol ac allanol, byddwch chi'n cael dolen i broses ymgeisio Cymru yng Nghaeredin 2019.

- **Sicrhau ansawdd artistig**

Beth yw'ch cynhyrchiad a pham dylid ei lwyfannu yn yr ŵyl? Pam y bydd hwn yn amser da ichi gyflwyno eich gwaith yn yr Ŵyl?

- **Uchelgais rhyngwladol**

Beth yw eich uchelgais rhyngwladol? I ble yr hoffech chi fynd â'ch gwaith? Pa waith braenaru'r tir rydych wedi'i wneud hyd yn hyn o ran eich uchelgais rhyngwladol? Pa feysydd yr hoffech gael cefnogaeth ynddynt?

- **Cynllunio a Rheoli Prosiect Llwyddiannus**

Ym mha leoliad y cyflwynwch eich gwaith? Beth yw'r ddealltwriaeth ariannol gyda'r lleoliad hwnnw? Pa dystiolaeth sydd o'r galw am eich gwaith yn yr Wyl? Sut y gwerthuswch fuddion artistig ac ariannol o berfformio yno yn y tymor hwy?

- **Budd i'r cyhoedd**

Sut yr hyrwyddwch gelfyddydau perfformio Cymru a'n diwylliant dwyieithog wrth gyflwyno eich gwaith i gynulleidfa ryngwladol yr Wyl? Sut y cyfranna eich presenoldeb yn yr Wyl at sector celfyddydol Cymru yn y tymor hwy?

- **Ariannu Prosiect Llwyddiannus**

Sut y cynhaliwch yn llwyddiannus y prosiect hwn? Pa ragdybiaethau a wnaethoch wrth lunio cyllideb eich prosiect? Pa mor realistig a chyflawnadwy yw amcanestyniadau eich incwm a enillir? Sut y codwch arian partneriaeth arall?

Atodiadau

Cyflwynwch bob gwybodaeth ategol berthnasol a fydd yn cryfhau eich cais. Rydym ni'n disgwyl gweld llythyrau oddi wrth eich lleoliad i gadarnhau'r llogi ac, os yw'n bosibl, unrhyw arian partneriaeth.

Y loteri sy'n talu am y gronfa, felly hoffem ni hefyd weld:

- leiaf dau **lythyr ystyrllon sy'n cefnogi eich prosiect** oddi wrth drydydd bartïon annibynnol
- Eich cyfrif banc

Rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad sydd angen o leiaf ddau berson i awdurdodi trafodion. Os ydych chi'n rhywun creadigol proffesiynol, bydd yn rhaid ichi ddarparu eich manylion banc.

Angen cysylltu?

Bydd ein swyddogion gwybodaeth yn gallu eich helpu gyda'ch cais. Os bydd gennych broblemau technegol gyda'r ffurflen gais, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth: grantiau@celf.cymru

Byddwch chi'n gallu cysylltu â ni mewn sawl ffordd:

- E-bostiwch datblygu@celf.cymru
- Ffoniwch 0845 8734 900 (byddwch chi'n talu cyfraddau lleol, bydd cyfraddau ffôn symudol yn amrywio o bosibl) neu 029 2044 1300

9am-5pm Lluniau

9am-4.30pm Gwener

Trydar: @Celf_Cymru

Gwefan: celf.cymru

Mae rhagor o wybodaeth am sut i [gysylltu â ni](#) yma